

Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles: Y Cynghorydd Susan Elsmore



UCHELGAIS PRIFDDINAS



Mae sut rydym yn trin y bobl y mae angen cymorth arnynt fwyaf yn brawf go iawn o werthoedd ein dinas. Wrth i Gaerdydd dyfu, mae'n bwysicach nag erioed sicrhau na fydd unrhyw un yn cael ei adael ar ôl oherwydd ei amgylchiadau a'n bod yn gwerthfawrogi a chefnogi ein dinasyddion mwyaf bregus. Mae'r Weinyddiaeth hon yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i barhau i wella ein gwasanaethau a chymorth i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn, unigolion ag anableddau dysgu neu gorfforol, y rheini sy'n byw â salwch meddwl, ac unigolion sy'n camddefnyddio alcohol a sylweddau.

Mae'r ffordd y gofalwn am bobl hŷn yn neges i genedlaethau'r dyfodol; felly bydd ein gwasanaethau i bobl hŷn yn flaenoriaeth. Er bod Caerdydd yn ddinas ifanc, wrth iddi dyfu disgwylir i nifer y bobl hŷn gynyddu'n sylweddol; disgwylir i nifer y bobl 85+ oed ddyblu bron erbyn 2030. Bydd gan rai pobl hŷn gyflyrau hirdymor ac anghenion gofal cymhleth, sy'n golygu y bydd angen gwasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol ychwanegol i fodloni'r anghenion. Mae'r costau o ddarparu gofal cymdeithasol eisoes yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus, gyda chynnydd o 50% mewn costau ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn, o £21.3m i £31.9m, rhwng 2011 a 2016. Does dim sôn am y pwysau hyn yn ysgafnhau.

Mae'r Weinyddiaeth hon yn ymrwymedig i ddod o hyd i ddatrysiadau ymarferol i'r argyfwng sydd o'n blaenau a heriau tymor hwy. Mae gofal cymdeithasol wedi bod yn her sydd wedi'i rhoi yn y bocs 'rhy anodd' ers yn rhy hir o lawer. Bydd angen gweithio mewn partneriaethau agosach gyda'r Gwasanaeth Iechyd a'r trydydd sector, cydlynu ein gwasanaethau ar lefel gymunedol a gweithio'n agos â phartneriaid – gan gynnwys grwpiau gwirfoddol, gofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr – i ddod o hyd i ddatrysiadau, i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gallu cael gofal yn eu cymunedau. Bydd dull gweithredu o'r fath yn cynnwys pwyslais ar ail-ffocysu buddsoddiad ar atal a hyrwyddo byw'n annibynnol.

Byddwn yn:

- Darparu **gofal cymdeithasol o'r ansawdd uchaf posibl**, yn ymarferol ac o ran darpariaeth.
- **Integreiddio gofal iechyd a gofal cymdeithasol o ran cyflymder a graddfa**, gan atgyfnerthu ein partneriaethau â Bwrdd Iechyd y Brifysgol a Chyngor Bro Morgannwg.
- **Chwalu'r rhwystrau a chydlynu gwasanaethau ar lefel gymunedol** drwy roi gofal cymdeithasol wrth wraidd dull gweithredu 'lleol' newydd y Cyngor.
- Creu **canolfannau modern** i gynnig gwasanaethau demensia arbenigol a chyfleoedd dydd i bobl hŷn.
- Sicrhau bod **pobl agored i niwed yn cael eu diogelu rhag niwed sylweddol** drwy atgyfnerthu trefniadau Diogelu Oedolion.
- **Cefnogi'r rheini sy'n dioddef o salwch meddwl** drwy weithredu a sefydlu'r addewid 'Amser Newid'.
- **Cefnogi'r dinasyddion a'r teuluoedd hynny sy'n byw gyda demensia**, gan gynnwys gwneud Caerdydd yn Ddinas Demensia gydnabyddedig.
- **Gweithio gyda'n partneriaid yn lleol i gefnogi'r symudiad byd-eang i roi terfyn ar drais gan ddynion yn erbyn menywod a merched**, gan weithredu gwasanaethau cynhwysfawr i'r rheini y mae Cam-drin Domestig yn effeithio arnynt.
- Gweithio'n agos â phartneriaid i gefnogi'r project Nodi ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS).
- Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Iechyd y Cyhoedd a **lleihau anghydraddoldeb iechyd**.
- **Grymuso pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref** drwy ddatblygu ymhellach ystod lawn o Wasanaethau Ataliol wedi'u hanelu at leihau'r galw sy'n deillio o boblogaeth sy'n heneiddio.